# Grŵp Cydweithredol Cymru Dros Atal Trais (AVC)

*Ymatebion Gorfodol i Drais mewn Gofal Iechyd (ORV)* Rhan 2: Dogfen Ganllaw



GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru
Shared Services Partnership
Welsh Risk Pool Services

Grŵp Cydweithredol Cymru dros atal Trais
Anti-Violence Collaborative Wales

# ORV RHAN DAU
# Canllawiau Gweithredol


| | | |
|---|---|---|
| **2.1** | Adrodd am Ddigwyddiadau | **T.3** |
| **2.2** | Ymateb yr Heddlu | **T.3** |
| **2.3** | Ymchwiliad | **T.4** |
| **2.4** | Penderfyniad ynghylch Erlyn | **T.5** |
| **2.5** | Datrysiadau y tu allan i'r llys | **T.6** |
| **2.6** | Diweddariadau i Reolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol<br><br>GIG Cymru neu staff cyfatebol | **T.7** |
| **2.7** | Cefnogaeth i Ddioddefwyr neu Dystion | **T.7** |
| **2.8** | Materion Diogelu Data a Chyfrinachedd | **T.9** |
| **2.9** | Rhannu Gwybodaeth | **T.10** |
| | | |
| **ATODIADAU** | | |
| **A** | I bwy mae'r ORV yn berthnasol? | **T.11** |
| **B** | Cylchlythyr Iechyd Cymru | **P.12** |
| **C** | Ffurflen Caniatâd Dioddefwr/Tyst ar gyfer Datgelu Gwybodaeth | **T.12** |
| **D** | Ffurflen Ganllaw Cychwynnol Enghreifftiol Iechyd Meddwl (Ffurflen G) | **T.13** |
| **E** | Ffurflen Troseddwyr Agored i Niwed yn Feddyliol | **T.16** |
| **F** | Datganiad Effaith Gwasanaeth - Enghraifft | **T.18** |


Sganiwch y cod QR hwn gan ddefnyddio eich dyfais symudol i ddarganfod rhagor am Grŵp Cydweithredol

GIG Cymru NHS Wales | Partneriaeth Cydwasanaethau Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru | Shared Services Partnership Welsh Risk Pool Services

Grŵp Cydweithredol Cymru dros atal Trais
Anti-Violence Collaborative Wales

## 2.1 Adrodd am Ddigwyddiadau

Bydd cyrff iechyd GIG Cymru yn ymdrechu i sicrhau bod pob digwyddiad sy’n ymwneud â thrais ac ymddygiad ymosodol (V&A) yn cael ei adrodd ar Datix Cymru, yn cael ei ymchwilio’n brydlon ac yn cael ei adrodd i’r heddlu lle bo’n briodol.

Mae adrodd yn effeithiol ar ddigwyddiadau yn hanfodol i lwyddiant rheoli materion yn ymwneud ag ymddygiad ymosodol. Er y gall anawsterau ymarferol godi, dylid annog, cefnogi a grymuso staff i adrodd am y digwyddiadau hyn.

Gall staff y GIG bob amser adrodd am droseddau treisgar ac ymosodol yn uniongyrchol i'r heddlu gan ddefnyddio 999 (ar gyfer materion brys) a 101 (materion nad ydynt yn rhai brys). Mae systemau adrodd ar-lein yr heddlu hefyd ar gael a dylid eu defnyddio lle bo'n briodol. Os yw’r digwyddiad yn awgrymu bod pryderon diogelu, dylai’r unigolyn sy’n adrodd sicrhau bod Tîm Diogelu corff GIG Cymru yn cael gwybod, a bod prosesau mewnol yn cael eu dilyn.

Dylai holl adroddiadau digwyddiad Datix Cymru sy’n ymwneud â thrais ac anafiadau ar staff gael eu hadolygu gan gyrff iechyd GIG Cymru er mwyn darparu cymorth priodol i’r aelod o staff sy’n adrodd ac i helpu i reoli’r risg a amlygwyd yn yr adroddiad.

## 2.2 Ymateb yr Heddlu

Bydd yr heddlu yn graddio digwyddiadau a adroddir fesul achos, yn dibynnu ar wybodaeth
a ddarparwyd.

Er mwyn symud achosion ymlaen yn effeithiol, dylid darparu gwybodaeth i'r heddlu cyn gynted â phosibl. Mae'r heddlu'n gyfrifol am gynnal ymchwiliadau trylwyr a phrydlon. Bydd yr heddlu yn diweddaru'r dioddefwr wrth i'r ymchwiliad fynd yn ei flaen (gweler adran 2.7).

Rhaid i'r Swyddog Ymchwilio benderfynu yn gyntaf a oes digon o dystiolaeth o drosedd ac yna penderfynu a yw er lles y cyhoedd i erlyn.

**Digwyddiadau mewn Unedau Iechyd Meddwl/Anableddau Dysgu**
Mae Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona (APP) yn rhoi arweiniad i Swyddogion Ymchwilio ar iechyd meddwl. Mae hyn yn rhoi cymorth i'r heddlu wrth ymchwilio i bobl a ddrwgdybir a allai fod yn profi cyflwr iechyd meddwl.

Mae unrhyw gyflwr iechyd sy'n effeithio ar y sawl a ddrwgdybir yn ystyriaeth berthnasol wrth ymchwilio i drosedd. Lle bo'n briodol, dylid rhoi manylion i'r swyddog ymchwilio.

Rhoddir enghraifft o ffurflen ar gyfer darparu gwybodaeth yn ymwneud â phobl ag anhwylder meddwl neu anabledd dysgu yn **Atodiad D (Ffurflen G)**. Gellir datgelu ffurflenni o'r fath i'r amddiffyniad fel rhan o ddatgelu deunydd nas defnyddiwyd. Bwriad ffurflenni o'r fath yw cynorthwyo penderfyniadau cychwynnol ar ymchwiliadau. Gall nyrsys cofrestredig yn ogystal â meddygon ddarparu'r wybodaeth hon.

Er y bydd nifer o achosion sy'n ymwneud â phobl ag anhwylderau meddwl neu anableddau dysgu yn ymwneud â digwyddiadau lle'r oedd gan y sawl a ddrwgdybir y bwriad angenrheidiol i fod yn gyfrifol am ei weithredoedd, bydd rhai eithriadau. Gellir adrodd am achosion sy'n ymwneud â thrais difrifol neu fynych, lle mae'r ymddygiad troseddol yn cael ei achosi'n uniongyrchol gan anhwylder meddwl neu anabledd dysgu. Bydd hyn fel arfer yn digwydd lle teimlir y dylid ystyried ymyrraeth gan y system cyfiawnder troseddol er mwyn diogelu staff y GIG neu'r cyhoedd yn ehangach.

Os bydd staff y GIG yn adrodd am ddigwyddiadau lle credant nad oedd gan yr un a ddrwgdybir y bwriad i gyflawni'r drosedd ar adeg y digwyddiad, dylid nodi hyn yn glir ynghyd â'r rheswm dros adrodd yn **Ffurflen G.**

**Arestiadau ar safleoedd y GIG**
Mater i'r Swyddogion Heddlu sy'n bresennol yw'r penderfyniad i arestio. Dylai staff y GIG fod yn barod i ddatgelu unrhyw wybodaeth am gefndir meddygol y sawl a ddrwgdybir. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw risgiau hysbys y gall person a arestiwyd eu hachosi i'r heddlu, a rhaid iddo gynnwys unrhyw wybodaeth yn ymwneud ag iechyd y person y gallai fod ei hangen ar yr heddlu er mwyn cyflawni eu dyletswydd gofal i'r rhai dan sylw. Cyfrifoldeb y GIG yw sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'r fframwaith polisi ynghylch datgelu gwybodaeth.

Dylai Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol GIG Cymru neu staff cyfatebol roi'r cymorth priodol
i'r heddlu yn ystod ymchwiliadau mewn lleoliad gofal iechyd y GIG.

## 2.3 Ymchwiliad

**Cymorth y GIG ar gyfer ymchwiliadau**
Bydd Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol GIG Cymru neu staff cyfatebol yn cysylltu ag Ymchwilydd yr Heddlu, a gall gynorthwyo yn yr ymchwiliad, megis:

- manylion patrymau gwaith a manylion cyswllt gwaith tystion.
- disgrifiad o berson a ddrwgdybir sydd wedi gadael y lleoliad cyn i'r heddlu
- gyrraedd. Manylion digwyddiadau blaenorol a phresenoldeb yr heddlu yn ymwneud â'r un unigolyn/unigolion.
- cadw unrhyw arfau a ddefnyddiwyd.
- Ffotograffau neu adroddiadau am anafiadau
- a gafwyd. Atafaelu a chadw lluniau teledu
- cylch cyfyng. Gwybodaeth gychwynnol ar
- faterion anhwylder meddwl. Manylion y dioddefwr a thystion.

**Datganiadau tystion a chasglu tystiolaeth**
Rôl Ymchwilydd yr Heddlu yw cyfweld â thystion, cymryd datganiadau a chasglu tystiolaeth.

**Datganiad Personol Dioddefwr**
Gall Ymchwilydd yr Heddlu gael datganiad effaith dioddefwr gyda chaniatâd y dioddefwr. Gall yr Erlynydd ofyn i'r llys ystyried y datganiad pan fydd troseddwr yn cael ei ddedfrydu er mwyn rhoi darlun llawn a diweddar i'r llys o effaith y drosedd ar y dioddefwr.

**Datganiadau Effaith Gwasanaeth**
Gellir paratoi 'Datganiad Effaith Gwasanaeth' lle bo'n briodol a'i roi i'r Ymchwilydd yr Heddlu. Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion yr effaith y mae digwyddiadau o'r fath wedi'u cael ar yr ysbyty, staff a gofal cleifion a gall gyfeirio at ddigwyddiadau yn y gorffennol.

Dylai'r manylion sydd i'w cynnwys yn y datganiad fod yn wybodaeth sy'n amlygu'r gost a'r anghyfleustra a achosir i'r gwasanaeth, megis yr effaith ar lefelau staffio, darpariaeth gwasanaeth i gleifion a difrod i offer, ac os yn bosibl, cost staff diogelwch ac offer i ymateb i ddigwyddiadau o'r fath. Dylai hefyd amlygu, os yw'n briodol, bod gwasanaethau hanfodol wedi'u dargyfeirio oddi wrth y rhai mewn angen.

Bydd y datganiadau hyn yn cynorthwyo'r llys i ddedfrydu ac yn darparu dealltwriaeth ehangach o effaith y troseddu. Bydd y cynnwys yn dibynnu ar natur y gwasanaeth a ddarperir gan gorff iechyd GIG Cymru e.e. ysbyty cyffredinol, ambiwlans, iechyd meddwl, Gofal Sylfaenol.

Rhoddir enghraifft o ddatganiad effaith ar wasanaeth yn **Atodiad F.**

**Amodau mechnïaeth**
Wrth ymchwilio i ddigwyddiadau ar eiddo'r GIG, bydd yr heddlu'n canfod a oes unrhyw wybodaeth i awgrymu y gallai'r sawl a ddrwgdybir fod yn fygythiad parhaus i staff neu wasanaethau'r GIG. Mewn achosion o'r fath, dylid ystyried gosod amodau mechnïaeth, ac mae'n bwysig bod pawb yn ymwybodol o unrhyw amodau a osodir.

## 2.4 Penderfyniad ar Erlyniadau

Mae'r partïon yn cytuno y bydd yr heddlu'n ymrwymo i ymchwilio i achosion a'u cyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) fel sy'n ofynnol o dan Arweiniad y Cyfarwyddwyr ar gyhuddo.

**Penderfyniad i erlyn**
Mae'n ddyletswydd ar yr heddlu ac erlynwyr i sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gweithredu'n briodol yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron (y Cod) yn ogystal â pholisi a chanllawiau'r CPS. Mae'r Cod ar gael ar wefan y CPS:

The Code for Crown Prosecutors | Gwasanaeth Erlyn y Goron (cps.gov.uk)

**Ffactorau gwaethygol mewn troseddau sy'n ymwneud â staff y GIG neu ar eiddo'r GIG**
Bydd y ffaith bod trosedd wedi'i chyflawni yn erbyn person sy'n gwasanaethu'r cyhoedd yn cael ei hystyried yn ffactor gwaethygol. Mae budd cyhoeddus cryf mewn cynnal darpariaeth effeithiol o wasanaethau gofal iechyd.

Wrth ddedfrydu, sy'n fater i'r llys, byddant yn ystyried ffeithiau'r achos, gan gymhwyso'r canllawiau dedfrydu perthnasol. Gellir cael canllawiau dedfrydu drwy'r ddolen ganlynol:

Sentencing guidelines – Sentencing (sentencingcouncil.org.uk)

**Erlyn pobl ag anhwylder meddwl a/neu anabledd dysgu**
Gall rhai achosion o drais, cam-drin a bygythiadau o drais yn erbyn staff y GIG yr adroddir amdanynt gael eu cyflawni gan y rhai a all fod ag anhwylder meddwl. Cymhwysir canllawiau i erlynwyr ym mhob achos gan ystyried amgylchiadau penodol. Mae copi o'r canllaw i'w weld ar y ddolen ganlynol:

Mental Health: Suspects and Defendants | Gwasanaeth Erlyn y Goron (cps.gov.uk)

**Digolledu**
Pan fydd y dioddefwr wedi'i anafu neu wedi dioddef yn ariannol, neu fod y corff GIG perthnasol wedi dioddef colled neu ddifrod ariannol, bydd y CPS yn:

- sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir gan yr heddlu ar hawliadau iawndal yn ddigonol i'r llys wneud gorchymyn iawndal os yw'n dymuno;
- atgoffa'r llys o'i bŵer i ddyfarnu iawndal mewn achosion lle nad oes colled ariannol (e.e. anafiadau personol); ac
- atgoffa'r llys bod yn rhaid iddo roi rhesymau os na wneir gorchymyn iawndal os yw'r achos yn un y gallai gorchymyn fod wedi bod yn bosibl.

**Pan na fydd y CPS yn penderfynu erlyn**
Lle gwneir penderfyniad i beidio ag erlyn neu atal erlyniad, gall yr achwynydd ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw. Gellir codi hyn o fewn y Cynllun Hawl Dioddefwr i Adolygiad, mae manylion i'w gweld ar y ddolen ganlynol:

Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad | Gwasanaeth Erlyn y Goron (cps.gov.uk)

## 2.5 Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys

Mae Adran 7 o'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yn cyfarwyddo y gall datrysiad tu allan i'r llys ddisodli erlyniad yn y Llys os yw'n ymateb priodol i'r troseddwr gan ystyried difrifoldeb y troseddu.

## 2.6 Diweddariadau i Reolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol GIG Cymru neu staff cyfatebol

Bydd Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol GIG Cymru neu staff cyfatebol yn cysylltu â'r gwasanaeth heddlu
perthnasol i ddarparu'r wybodaeth ganlynol os ystyrir ei bod yn briodol:

- manylion unrhyw berson a arestiwyd (h.y. enw, dyddiad geni a chyfeiriad).
- manylion unrhyw amodau mechnïaeth a osodwyd sy'n ymwneud â diogelu'r GIG dioddefwyr neu dystion neu gyfyngiadau ar fynychu safleoedd y GIG.
  manylion unrhyw benderfyniad y tu allan i'r llys a osodwyd neu achosion lle na chymerir camau pellach.
- manylion pan fo unrhyw berson yn cael ei gyhuddo neu'n cael ei wysio ar gyfer y gwrandawiad llys cychwynnol
  .

## 2.7 Cefnogaeth i Ddioddefwyr neu Dystion

**Cyfathrebu â dioddefwyr/tystion**
Mae'r heddlu a'r CPS wedi'u rhwymo gan ganllawiau a chodau ymarfer ar gyfathrebu â dioddefwyr a thystion. Gall Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol GIG Cymru neu staff cyfatebol gynorthwyo trwy hysbysu'r heddlu ynghylch argaeledd tystion staff e.e. ar gyfer datganiadau.

Os bydd cyfathrebu effeithiol ac amserol yn peri problemau (ac os yw'r dioddefwr a thystion wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig) gall Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol GIG Cymru neu staff cyfatebol dderbyn a throsglwyddo gwybodaeth am: gynnydd ymchwiliad heddlu; am benderfyniadau'r CPS ar gyhuddo neu erlyn, ac am ystyried datrysiadau y tu allan i'r llys.

Mae gan Reolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol GIG Cymru neu staff cyfatebol rôl yn y gwaith o fonitro ymchwiliadau ac erlyniadau. Ni fydd angen caniatâd ysgrifenedig ar gyfer diweddaru Rheolwyr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol y GIG ar gynnydd yr achos; dim ond os yw Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol y GIG yn cymryd y cyfrifoldeb am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r dioddefwr am gynnydd y bydd ei angen.

Dylai Rheolwyr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol GIG Cymru neu staff cyfatebol, y CPS a'r heddlu gytuno ar ba fformat y dylai unrhyw ganiatâd ysgrifenedig ei gymryd. Lle bo'n briodol, bydd y Rheolwr Achosion yn ceisio cael caniatâd a'i roi i'r heddlu a'r CPS cyn gynted â phosibl. Mae'r cynnwys a awgrymir ar gyfer ffurflen ganiatâd yn **Atodiad C**.

Os bydd y CPS yn penderfynu newid neu atal y trosedd yn sylweddol ar ôl i'r sawl a ddrwgdybir gael ei gyhuddo, caiff y dioddefwr ei hysbysu'n uniongyrchol.

**Unedau Gofal Tystion**
Mae Unedau Gofal Tystion yr Heddlu (WCUs) yn gyfrifol am gefnogi dioddefwyr a thystion a rhoi gwybod iddynt am hynt eu hachos. Bydd Swyddog Gofal Tystion yn:

- trafod a chytuno gyda dioddefwyr ar lefel y cyswllt a'r gefnogaeth yr hoffent ei chael yn ystod oes yr achos a sut y bydd y gofynion hyn yn cael eu bodloni.
- esbonio pwrpas yr asesiad anghenion manwl i ddioddefwyr a'i roi iddynt y cyfle i gwblhau un.
- cysylltu â dioddefwyr a thystion y nodwyd eu bod yn agored i niwed neu wedi'u bygwth, neu ag anghenion cymorth penodol, i drafod pa gymorth y gallai fod ei angen arnynt.

Yn ogystal, bydd y Swyddog Gofal Tystion yn hysbysu'r holl ddioddefwyr a thystion y mae'n ofynnol iddynt fynychu llys o'r canlynol:

- dyddiad y treial, lleoliad y llys a thrafod unrhyw bryderon ynghylch mynychu'r llys
  unrhyw newidiadau perthnasol i statws gwarchodaeth neu amodau mechnïaeth y diffynnydd, canlyniad ceisiadau mesurau arbennig sy'n ymwneud ag ef a hefyd os caiff yr achos ei derfynu.

Ar ddiwedd yr achos, bydd y Swyddog Gofal Tystion yn hysbysu'r holl ddioddefwyr a'r tystion o'r canlyniad terfynol a'r ddedfryd os yw'n briodol.

**Gofal i ddioddefwyr yn ystod datblygiad achos**
Bydd yr Erlynydd bob amser yn mynd i'r afael ag anghenion penodol dioddefwr neu dyst megis a oes angen unrhyw fesurau arbennig i gynorthwyo i roi tystiolaeth. Cyn pob treial, bydd Erlynwyr yn ystyried a yw'n gwbl angenrheidiol mynnu bod tyst yn bresennol.

Lle bo'n bosibl, cytunir ar dystiolaeth tyst, ond yn aml pan wadir y drosedd, bydd angen presenoldeb tyst.

**Mesurau Arbennig**
Pan fo dioddefwr, sydd i'w alw'n dyst mewn achos troseddol, wedi'i nodi fel rhywun a allai fod yn agored i niwed neu'n cael ei fygwth, gellir rhoi Mesurau Arbennig ar waith i'w cynorthwyo i roi tystiolaeth yn y llys. Gall y rhain gynnwys rhoi tystiolaeth y tu ôl i sgrin neu drwy gyswllt teledu.

Rôl Ymchwilydd yr Heddlu yw sefydlu'n gynnar a yw tyst yn debygol o fod yn gymwys ar gyfer Cyfarwyddyd Mesurau Arbennig ac, os felly, pa fesurau penodol fydd o gymorth. Bydd barn y dioddefwr yn bwysig ac yn cael ei hystyried yn ofalus. Mae gan y CPS gyfrifoldeb i wneud cais am fesurau arbennig, ond y llys sydd i benderfynu.

Bydd yr Unedau Gofal Tystion yn sicrhau bod unrhyw newid mewn amgylchiadau a allai effeithio ar benderfyniad y dioddefwr ar Fesurau Arbennig yn cael ei gyfleu. Bydd Rheolwyr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol GIG Cymru neu staff cyfatebol yn helpu i nodi pryd y mae angen ystyried Mesurau Arbennig.

## 2.8 Materion Diogelu Data a Chyfrinachedd

Gan fod yn rhaid i ddatgeliad gwybodaeth gydymffurfio ag egwyddorion diogelu data mae'n rhaid penderfynu arno a'i gyfiawnhau fesul achos, ni all y CPS, cyrff iechyd GIG Cymru na'r heddlu 'rhag-awdurdodi' datgelu.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi nodi y byddai datgelu gwybodaeth berthnasol i'r heddlu mewn cysylltiad ag ymosodiadau ar staff, yn gyffredinol, yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data (gweler canllaw'r Comisiynydd Gwybodaeth "Defnyddio a Datgelu Data Iechyd").

Yn yr un modd â materion diogelu data, ni all cyrff cenedlaethol roi unrhyw awdurdod cyffredinol ar gyfer datgeliadau a allai dorri dyletswydd cyfrinachedd, gan y bydd yn rhaid ystyried pob datgeliad yn unigol. Derbynnir bod yn rhaid i broffesiynau penodol gadw nid yn unig at ganllawiau cenedlaethol ond hefyd at ganllawiau eu cyrff rheoleiddio neu broffesiynol.

Mae'n dderbyniol torri cyfrinachedd os gellir cyfiawnhau gwneud hynny er budd y cyhoedd.

Rhaid ceisio a datgelu gwybodaeth feddygol dim ond os yw'n berthnasol i'r ymchwiliad neu'r erlyniad o ymddygiad troseddol. Gellir caniatáu datgelu gyda chaniatâd y dioddefwr. Nid yw datgelu gwybodaeth hunaniaeth i'r heddlu sy'n ymchwilio i drosedd yn erbyn staff y GIG yn cael ei ystyried yn ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol.

Yn gyffredinol, mae'r partïon yn cytuno y bydd datgelu gwybodaeth yn y senarios a ystyrir yn y ddogfen hon yn gyfreithlon. Lle mae datgeliad yn angenrheidiol ac yn gymesur a gellir ei gael heb ganiatâd y dioddefwr at un neu fwy o'r dibenion canlynol:

- atal a chanfod trosedd.
- dal ac erlyn troseddwyr.
- nodi achosion yn gynnar a fyddai'n addas i'w dargyfeirio o'r system cyfiawnder troseddol.
- asesu risg i lywio camau gweithredu i ddiogelu iechyd a diogelwch staff y GIG, cleifion, ymwelwyr, Swyddogion Heddlu a staff eraill yr heddlu, y CPS a staff y llys mewn cysylltiad ag achosion cyfreithiol neu geisio cyngor cyfreithiol.[6]

Os bydd yr heddlu neu'r CPS yn cael anawsterau wrth gael mynediad at wybodaeth oherwydd bod gan staff y GIG bryderon ynghylch cyfrinachedd neu ddiogelu data, dylent gysylltu â Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol GIG Cymru neu staff cyfatebol.

6 Adran 115 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
Ni ddylai absenoldeb cytundebau fyth fod yn rhwystr i rannu gwybodaeth risg yn amserol mewn achosion penodol.

## 2.9 Rhannu Gwybodaeth

Mae llwybrau presennol ar gyfer rhannu gwybodaeth, gwybodaeth risg ac ystadegau fel mater o drefn, a bydd rhai ohonynt ar sail statudol (e.e. Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Diogelu Plant Lleol).

Bydd y partïon yn archwilio lle gallai cytundebau rhannu gwybodaeth presennol fod yn ddiffygiol, yn enwedig lle nad ydynt yn mynd i'r afael yn ddigonol ag achosion unigol neu achosion brys, er enghraifft:

- darparu gwybodaeth mewn perthynas ag unigolion coll a'r rhai sydd wedi dianc o'r ddalfa cleifion ac ymateb i ddigwyddiadau.
- manylion personau a allai achosi risg arbennig i staff y GIG neu'r heddlu.
- Trefniadau ar gyfer trosglwyddo pobl i ac o safleoedd y GIG a gorsafoedd heddlu neu safleoedd llys.

**WASPI – Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru**

Pan fydd gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn rheolaidd bydd y partïon yn defnyddio'r

Bydd pob parti yn cymryd agwedd ragweithiol at rannu gwybodaeth lle maent wedi nodi bygythiad posibl i ddiogelwch staff, y cyhoedd neu unigolion penodol.

## Atodiad A - I bwy mae'r ORV yn berthnasol?

**Cymorth i Ddioddefwyr**
Y dioddefwyr ymosodiadau a gwmpesir gan y cytundeb hwn yw holl staff y GIG, gwirfoddolwyr, staff asiantaeth, staff banc a myfyrwyr ar leoliad; ac nid ydynt yn gyfyngedig i'r enghreifftiau a ddarperir isod. Diben y canllawiau hyn yw rhoi cymorth mor eang â phosibl a hefyd gan ystyried Deddf Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Brys (Troseddau) 2018.

**Staff ysbyty**
Meddygon; Llawfeddygon; Nyrsys; Bydwragedd; Therapyddion; Fferyllwyr; Dietegwyr; Podiatryddion; Deintyddion; Patholegwyr Lleferydd; Clercod; Derbynyddion; Porthorion; Technegwyr; Rheolwyr, Staff cymorth; Staff domestig; Staff arlwyo; Staff cynnal a chadw (Gwaith ac Ystadau); Diogelwch.

**Staff ambiwlans**
Parafeddygon; Technegwyr; Cynorthwywyr Gofal Brys; staff Cludo Cleifion; Trinwyr galwadau / Anfonwyr Meddygol Brys; Rheolwyr a staff Swyddfa.

**Staff cymunedol**
Nyrsys; Staff cymorth; Therapyddion; Bydwragedd; Gweithwyr Cymdeithasol; Rheolwyr;
Derbynyddion

**Staff gofal sylfaenol**
Meddygon Teulu; Fferyllwyr; Parafeddygon; Deintyddion; Optegwyr; Gweithwyr Cymorth sy'n gweithio yn yr amgylcheddau hynny

Os ydych yn ddioddefwr trais ac ymddygiad ymosodol sy’n dod o dan un o’r categorïau hyn yna dylech fod yn ymwybodol o’r wybodaeth ganlynol sy’n amlinellu’r hyn y gallwch ei ddisgwyl o ganlyniad i’r cytundeb hwn:

**Dyma sut rydyn ni'n ceisio'ch cadw chi'n ddiogel**
Pan fydd staff y GIG yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â thrais ac ymddygiad ymosodol, gallwn nodi problemau mynych a defnyddio'r wybodaeth hon i reoli risgiau ac atal ymosodiadau pellach. Dyna pam ei bod mor bwysig eich bod yn adrodd am ddigwyddiad os ydych yn ddioddefwr neu'n dyst i ddigwyddiad yn y gwaith. Rydym yn darparu'r hyfforddiant perthnasol i staff y teimlwn eu bod mewn perygl o ddioddef trais ac ymddygiad ymosodol gyda'r nod o'ch paratoi'n well ar gyfer sefyllfa o'r fath.
Mae'n ofynnol i gyrff iechyd GIG Cymru gydymffurfio â chyfarwyddyd Cylchlythyr Iechyd Cymru
2024 **(Atodiad B).**

## Atodiad B
### Cylchlythyr Iechyd Cymru

Bydd Cylchlythyr Iechyd Cymru 2021/012 yn cael ei ddisodli gan Gylchlythyr Iechyd Cymru 2024 pan gaiff ei ryddhau'n fuan.

## Atodiad C
### Ffurflen Caniatâd Dioddefwr/Tyst ar gyfer Datgelu Gwybodaeth

| | |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth: | |
| Manylion y troseddwr honedig (os yw'n hysbys) | |
| Lleoliad: | |
| Cofnod yr heddlu a/neu rif Cyfeirnod Trosedd : | |
| Manylion Swyddog Heddlu: | |
| Fi, [**rhowch enw a dyddiad geni'r dioddefwr**] yw dioddefwr/tyst y digwyddiad uchod. Rhoddaf fy nghaniatâd i [**rhowch enw gwasanaeth yr heddlu/swyddfa CPS**] ddarparu gwybodaeth yn ymwneud â'r digwyddiad uchod yn uniongyrchol i **[ rhowch fanylion Rheolwr Achos (neu berson priodol a enwir) y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth**]. Rwyf hefyd yn cydsynio i'r Heddlu a/neu'r CPS roi diweddariadau ar gynnydd yr achos i [**y Rheolwr Achos (neu berson priodol a enwir**)] os na allant gysylltu â mi'n uniongyrchol. | |
| Llofnod: | Dyddiad: |
| Rwyf i, [**rhowch enw'r Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol y GIG neu enw staff cyfatebol**] yn cytuno i dderbyn gwybodaeth ar ran yr uchod ac yn derbyn cyfrifoldeb am drosglwyddo'r wybodaeth hon yn brydlon. | |
| Llofnod: | Dyddiad: |
| Dyddiad derbyn a mewngofnodi ar gofnod yr Heddlu: | |
| Llofnod Swyddog Heddlu: | |

## Atodiad D
**Ffurflen Arweiniad Cychwynnol Iechyd Meddwl (Ffurflen G)**

| | | |
|---|---|---|
| Ymchwiliad yr Heddlu: canllawiau lle y dylid asesu cyflwr iechyd meddwl y sawl a ddrwgdybir<br>.<br><br>I'w darparu i'r heddlu gan aelod priodol o staff y GIG. | | |
| **Cyfeirnod Digwyddiad HS /Datix:** | **Trosedd Honedig :** | |
| **Dyddiad y Digwyddiad:** | **Amser Digwyddiad :** | |
| **Enw(au) Dioddefwr/wyr :** | | |
| **Lleoliad y digwyddiad** | | |
| **Manylion am y digwyddiad** | | |
| **Enw(au) y tystion:** | | |
| **A yw'r dioddefwr yn cydsynio i gysylltiad gan Reolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol GIG Cymru neu aelod staff cyfatebol ?** | | |
| Ticiwch ydy neu nac ydy | Ydy | Nac ydy |
| **Os Ydy, darparwch Rif Cyswllt :** | | |
| | | |
| **GWEITHIWR PROFFESIYNOL GOFAL IECHYD SY'N CWBLHAU'R FFURFLEN** | | |
| **Enw:** | **Teitl y Swydd:** | |
| **Rhif Cyswllt :** | **Cyfeiriad e-bost:** | |
| **MANYLION DEFNYDDWYR GWASANAETH** | | |
| **Enw:** | **Dyddiad Geni:** | |
| **Rhif Defnyddiwr Gwasanaeth:** | | |
| **Cyfeiriad os nad yw'n glaf mewnol:** | | |
| **Wedi'i gadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983?** | | |
| Ticiwch ydy neu nac ydy | Ydy | Nac ydy |
| **Os Ydy, Adran 2 neu Adran 3 ac ati:** | | |

## Atodiad D

### Ffurflen Arweiniad Cychwynnol Iechyd Meddwl (Ffurflen G)

| | | |
|---|---|---|
| **Cwbl Gyfrinachol — adroddiad meddygol digwyddiad**<br>Mae'r rhan hon o'r ffurflen i'w defnyddio gan yr heddlu/Gwasanaeth Erlyn y Goron wrth wneud penderfyniadau ymchwiliad cychwynnol/erlyniad ac ni fwriedir iddi ddisodli'r angen am ddatganiadau ac adroddiadau tystion pe bai'r mater yn mynd ymlaen i'r llys. Mae'n bosibl y caiff y ffurflen hon wedi'i chwblhau ei datgelu i'r llys.<br><br>**Cyflwr Meddyliol Defnyddiwr Gwasanaeth:** defnyddiwch eich barn a'ch crebwyll proffesiynol i ateb y cwestiynau isod sy'n ymwneud â'r defnyddiwr gwasanaeth uchod. Gall Nyrs Gofrestredig neu Feddyg lenwi'r ffurflen hon. | | |
| **A fyddech chi'n ystyried bod y defnyddiwr gwasanaeth ar adeg y drosedd honedig yn<br>gallu deall ei weithredoedd?** | | |
| Ticiwch byddwn neu na fyddwn a rhowch farn/enghraifft pam | Byddwn | Nac fyddwn |
| Sylwadau: | | |
| **A fyddech chi'n ystyried bod y defnyddiwr gwasanaeth ar adeg y drosedd honedig yn<br>gallu rheoli ei weithredoedd?** | | |
| Ticiwch byddwn neu na fyddwn a rhowch farn/enghraifft pam | Byddwn | Nac fyddwn |
| Sylwadau: | | |
| **A fyddech chi'n ystyried bod y defnyddiwr gwasanaeth yn gallu deall y broses gyfreithiol os ceisir erlyniad (fel yr hyn y mae'n cael ei gyhuddo ohono a rhoi cyfarwyddiadau i gyfreithiwr pe bai'r mater yn cael ei gyfeirio at y llys?)** | | |
| Ticiwch byddwn neu na fyddwn a rhowch farn/enghraifft pam: | Byddwn | Nac fyddwn |
| Sylwadau: | | |
| **A fyddech yn ystyried y byddai erlyn y defnyddiwr gwasanaeth yn niweidiol i'w gynllun gofal?** | | |
| Ticiwch byddwn neu na fyddwn a rhowch farn/enghraifft pam: | Byddwn | Na fyddwn |

| | |
|---|---|
| Llofnod: | |
| Printiwch eich enw: | |
| Teitl y Swydd | |
| Dyddiad: | |

| Manylion Swyddog Heddlu sy'n Mynychu | |
|---|---|
| Enw: | Rhif Coler |
| Enw: | Rhif Coler |
| Digwyddiad/Cyfeirnod yr Heddlu: | |

| Manylion Rheolwr Achos GIG Cymru neu staff cyfatebol | | |
|---|---|---|
| Ffôn Symudol: | Desg: | E-bost: |

**Sicrhewch fod copi yn cael ei ddarparu i'r heddlu.**

# Atodiad E
## Ffurflen Troseddwyr Agored i Niwed yn Feddyliol

**Mae'r ffurflen hon i'w chael yn y cytundeb 'Ymatebion Gorfodol i Drais mewn Gofal Iechyd' (ORV), Rhan 2, Atodiad E.**

**Heddlu'n gwneud cais am wybodaeth gan y gwasanaeth iechyd.**

Er mwyn gwneud asesiad llawn i weld a ddylai unigolyn sydd wedi'i gyhuddo o droseddu gael ei arestio, ei gyhuddo neu ei ddargyfeirio o'r system cyfiawnder troseddol, mae'r heddlu'n ceisio'r wybodaeth ganlynol os yw ar gael gan y GIG (neu ddarparwr gofal iechyd arall).

**Rhowch fanylion y troseddwr honedig a'r digwyddiad:**

**Dylai Swyddogion Ymchwilio ddileu, os nad yw'n briodol i'r ymchwiliad:**

- Beth yw barn y Meddyg neu'r Seicolegydd ar erlyn? A oes unrhyw rwystrau clinigol iddo? Rhowch amlinelliad o'r cynllun rheoli gofal os na fydd erlyniad yn digwydd.
- Unrhyw droseddu nas hysbyswyd yn flaenorol, sy'n berthnasol i'r ymchwiliad presennol.
- Unrhyw hanes blaenorol o ddianc o ofal seiciatrig .
- Unrhyw fethiant hysbys i ddychwelyd o absenoldeb a17 DIM.
- Unrhyw fethiant perthnasol hysbys i gydymffurfio â chynlluniau gofal, gan gynnwys unrhyw raglen meddyginiaeth

- Gwybodaeth am unrhyw droseddu a fwriedir.
- Gwybodaeth am unrhyw fygythiadau parhaus i iechyd a diogelwch unrhyw berson.
- Beth yw statws cyfreithiol y person dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983?

Gofynnir am yr wybodaeth hon er mwyn cynnal ymchwiliad troseddol i drosedd o ………………………………………**[nodwch].** Mae'r wybodaeth hon yn uniongyrchol berthnasol i ba un a ddygir cyhuddiadau troseddol a/neu a yw mechnïaeth yn briodol; penderfyniadau sy'n ofynnol gan …………………………………... **[rhowch enw'r heddlu]** gan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. **Darparwch unrhyw wybodaeth/rhesymau perthnasol ychwanegol, gan gynnwys cadarnhad pam fod angen datgelu nawr:**

**Cyfeirnod (carchar/trosedd):**
**Llofnod y Swyddog……………………………………**

Nodiadau pellach i gefnogi'r cais (Swyddog Ymchwilio)

**Cyfeirnod (carchar/trosedd):**
**Llofnod y Swyddog……………………………………**

# Atodiad E
## Ffurflen Troseddwyr Agored i Niwed yn Feddyliol

**Nodiadau gan Feddyg neu Seicolegydd i'r cais uchod :**

**Llofnod: ............................................................................**

**Amser/dyddiad: ................................ Enw:.......................................**

**Swydd Broffesiynol :.......................................**

## Atodiad F
**Enghraifft— Datganiad Effaith Gwasanaeth**

<table>
<tr><td colspan="6">DATGANIAD TYST<br>Rheolau Gweithdrefn Droseddol, rh 27. 2; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967, a. 9; Deddf Llysoedd Ynadon 1980, a.5B</td></tr>
<tr><td colspan="2">URN</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Datganiad gan:</td><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="3">Oedran os o dan 18:</td><td colspan="3">Galwedigaeth:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Ym mha iaith y byddai'n well gennych roi eich tystiolaeth: CYMRAEG<br>Ym mha iaith y byddai'n well gennych chi roi eich llw: CYMRAEG</td></tr>
<tr><td colspan="6">Mae’r datganiad hwn (sy’n cynnwys 2 dudalen(nau) yr un wedi’i lofnodi gennyf i) yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a’m cred ac rwy’n ei wneud yn gwybod, os caiff ei gyflwyno fel tystiolaeth, y byddaf yn agored i’m herlyn os wyf wedi datgan yn fwriadol ynddo, unrhyw beth a wn i'n anwir, neu na chredaf ei fod yn wir.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Llofnod:</td><td>Dyddiad</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td colspan="6">Ticiwch os yw tystiolaeth tyst wedi’i recordio’n weledol (rhowch fanylion tyst ar y cefn).<br><br>Fi yw [rhowch Teitl Swydd] ac mae gennyf gyfrifoldeb am [cynnwys cylch gorchwyl] ar draws yr ardal. Er mwyn cyflawni fy nyletswydd rhaid i mi ddibynnu ar weithredoedd nifer fawr o staff y GIG, contractwyr a gwirfoddolwyr sy'n darparu gofal a thriniaeth i bob aelod o'r gymuned a hefyd i ymwelwyr â'r ardal. Maent yn gwneud hynny er mwyn gwneud Lle Iachach trwy ofalu am gymunedau a darparu gofal rhagorol.<br><br>Wrth ddarparu’r datganiad hwn rwy’n gobeithio y bydd yn cynorthwyo yn fy nyletswydd i amddiffyn aelodau’r sefydliad sy’n darparu gwasanaethau gofal iechyd hanfodol i’r cyhoedd.<br><br>Yn rhy aml o lawer mae staff y GIG yn destun ymosodiadau a bygythiadau. Er bod difrifoldeb ymosodiadau o'r fath yn newid, nid yw'r effaith ar gymdeithas yn newid. Nid yw byth yn dderbyniol tybio y dylid goddef ymosodiadau ar staff y GIG mewn unrhyw ffordd; nid yw ymosodiadau o’r fath yn 'rhan o'r swydd'.<br>Er ei bod yn amlwg bod natur gofal iechyd yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r sefydliad ymdrin â sefyllfaoedd anodd a gelyniaethus, mae ymosodiadau a chamdriniaeth a gyfeirir atynt yn ddifrifol ac yn annerbyniol.<br><br>Mae'r canllawiau dedfrydu yn adlewyrchu'r ffaith hon ac yn amlygu bod ymosodiadau ar swyddogion cyhoeddus sy'n cyflawni eu dyletswydd yn nodwedd waethygu. Mae sawl ffordd y mae ymosodiadau ar weision cyhoeddus yn effeithio ar gymdeithas. Bob tro yr ymosodir ar staff y GIG a'u cam-drin, mae goblygiadau posibl o ran absenoldebau oherwydd salwch ac atal y gwasanaeth a ddarperir drwy ddifrod a tharfu a achosir i feysydd clinigol ac anghlinigol.<br><br>Mae’r absenoldebau a’r aflonyddwch hyn yn effeithio’n ddifrifol ar adnoddau a gallu’r GIG i ddarparu “gwasanaethau a thriniaeth o safon”. Maent hefyd yn rhoi straen ychwanegol ar aelodau eraill o’r sefydliad oherwydd trosglwyddo gwaith i eraill, a all gael effaith sylweddol ar lesiant staff y GIG.<br><br>Rydym yn parhau i weld cynnydd yn nifer yr ymosodiadau ar staff y GIG a digwyddiadau a gofnodwyd yn ddiweddar a effeithiodd ar staff.</td></tr>
</table>

## Atodiad F

Nid yn unig y mae ymosodiadau a chamdriniaeth ar staff y GIG yn cael effaith negyddol ar y gymuned ond hefyd yn fewnol ar y sefydliad. Yn bersonol, mae staff yn dioddef nid yn unig anafiadau corfforol, ond hefyd yr effeithiau seicolegol. Mae dychwelyd i ddyletswyddau rheng flaen ar ôl dioddef ymosodiad a chamdriniaeth yn arbennig o heriol neu drawmatig i lawer. Ar raddfa ehangach, mae morâl yn cael ei effeithio'n sylweddol pan fydd staff y GIG yn gweld ymosodiad a chamdriniaeth ar eu ffrindiau a'u cydweithwyr. Gall hyn, yn ei dro, niweidio gallu'r GIG i recriwtio pobl newydd i'r sefydliad.

Mae'r cyhoedd yn galw ar y GIG i'w helpu pan fyddan nhw fwyaf mewn angen. Mae gennym ddyletswydd i amddiffyn y cyhoedd ond rydym yn cael ein hatal yn rhy aml rhag gwneud hynny oherwydd unigolion treisgar sy'n dewis ymosod ar y rhai sydd yno i'w helpu.

Yn bwysicaf na dim, dylid cofio mai pobl yw staff y GIG, eu bod yn dadau, yn famau, yn feibion a merched. Pan fydd rhywun yn ymosod arnyn nhw maen nhw'n dod yn ddioddefwyr yn union fel unrhyw un arall.

Mae'r achos hwn yn ymwneud ag ymosodiad **(rhowch fanylion y cyflogai yma)** a ymosodwyd arno wrth gyflawni ei ddyletswyddau.